*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, (Polisi Corfforaethol a Chynllunio)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill – Rhagfyr 2022** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch mewn perthynas â digwyddiadau yn ystod naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgarwch nodedig arall mewn perthynas â digwyddiadau.

**Crynodeb Gweithredol**

2 Yn ystod naw mis cyntaf 2022/23, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i 4,656 o achosion brys. Mae hyn yn gynnydd o 16.7% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 (3,991).

3 Cafwyd cynnydd o 37.1% yn nifer yr argyfyngau nad oeddent yn danau yr aethpwyd atynt (698) sy'n cael eu dosbarthu fel Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (DGAau). Daw hyn yn dilyn newid polisi yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol ynghylch mynd i DGAau, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd a'i bartner-asiantaethau gan gynyddu amlygrwydd y Gwasanaeth yn y gymuned ar yr un pryd.

4 Mae'n braf dweud bod nifer y tanau damweiniol yn y cartref (TDC) wedi parhau i leihau gyda chriwiau tân yn mynd at 258 o ddigwyddiadau yn ystod y naw mis diwethaf, o gymharu â 314 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Mae'n braf dweud hefyd nad oes unrhyw farwolaethau tân wedi digwydd yn ystod y naw mis diwethaf, ac y cafwyd hefyd ostyngiad yn nifer yr anafiadau difrifol mewn TDC, o 4 i 2, o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol y gallai hyn newid, ac felly mae'n parhau i ddarparu mentrau ac ymyriadau atal tân i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar y maes tanau yn yr awyr agored, sy'n gallu digwydd o ganlyniad i dywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae hwn yn faes sy'n tyfu yn y DU o'i gymharu â'r lleihad mewn tanau tai dros y degawd diwethaf. Gall tanau yn yr awyr agored fod yn ddigwyddiadau arbennig o heriol i'r Gwasanaeth ddelio â nhw oherwydd eu natur afreolaidd, a'u maint, graddfa a dwyster posib, ac oherwydd yr amgylcheddau gwledig a gwledig-drefol lle maen nhw'n tueddu i ddigwydd.

6 Fel y'i diffinnir gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) mae tanau yn yr awyr agored yn dân mewn glaswelltiroedd, coetiroedd neu gnydau:

- sy'n cynnwys ardal ddaearyddol o un hectar o leiaf (10,000 metr sgwâr neu 100m x 100m);
- sydd â hyd fflam parhaus o fwy nag 1.5 metr;
- sy'n gofyn am adnodd neilltuedig o bedwar peiriant/adnodd tân ac achub o leiaf;
- sy'n gofyn bod adnoddau yn cael eu neilltuo am o leiaf chwe awr;
- sy'n peri bygythiad difrifol i fywyd, yr amgylchedd, eiddo a seilwaith.

7 Yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, bu 55 o danau yn yr awyr agored yng Ngogledd Cymru (cynnydd o 1 o Ch2 2022/23), yr aeth cyfanswm cyfunol o 359 o gerbydau atynt am dros 1,108 o oriau.

8 Mae'r newidiadau yn ein presenoldeb mewn digwyddiadau yng Ngharchar Berwyn a weithredwyd yn ystod y pandemig, a'r cyngor diogelwch tân a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn y carchar o 22 i 13 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

9 Mae perfformiad argaeledd criwiau tân yn unol â tharged argaeledd yr 20 gorsaf yn parhau i fod ar i fyny, gyda chynnydd o 15.6% i 260 diwrnod (94.5%) o gymharu â 225 diwrnod (81.8%) yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn.

**Argymhelliad**

10 Dylai'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**Gwybodaeth**

11 **Yr Holl Ddigwyddiadau**
Mae'r duedd ar i fyny yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt wedi parhau, gyda phresenoldeb mewn 16.7% yn fwy o ddigwyddiadau yn ystod naw mis cyntaf 2022/23 (4,656) nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (3,991). Er bod cynnydd wedi bod o ran presenoldeb ar draws pob categori, y cyfrannwr mwyaf oedd cynnydd o 37.1% mewn Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig.

12 **Tanau**
Roedd y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynyddu 16.4% i 1,632 o'i gymharu â 1,402 yn yr un cyfnod yn 2021/22.

13 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**
Cynyddodd Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau 69.5% (o 256 i 434). Cynyddodd Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau Damweiniol Eilaidd, o 162 i 285, gyda thanau 'Rhostir neu Weundir' y cyfrannwr mwyaf at y cynnydd (o 40 i 101). Cofnodwyd cynnydd hefyd yn y categori 'Glaswelltir, Porfa, Tir Pori ac ati'. (o 50 i 90) a 'Prysgoed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (15 i 28) a 'Cloddiau' (14 i 27).

14 Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau bwriadol eilaidd 47.1% (o 87 i 128) gyda'r cyfrannwyr mwyaf at y cynnydd yn danau 'Glaswelltir, Porfa, Tir Pori ac ati' (o 34 i 59); 'Prysgoed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (12 i 21) a 'Cloddiau' (5 i 10).

15 **Tanau yn yr awyr agored**
Cafwyd 55 o danau yn yr awyr agored ac roedd 359 o gerbydau wedi eu mynychu am dros 1,108 awr yn ystod y cyfnod adrodd.

16 **Prif Danau**
Gostyngodd y prif danau ychydig (3.8%) o gymharu â'r un chwarteri yn 2021/22 (680 i 654), ac roeddent 3.8% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 680. Gostyngodd prif danau damweiniol 4.8% o 567 i 540, gyda'r cyfrannwr mwyaf at y gostyngiad y danau 'Annedd' (314 i 258). Er gwaethaf y gostyngiad mewn prif danau, cynyddodd tanau 'Car' a 'Glaswelltir, Coetir a Chnydau' o 58 i 77 ac o 5 i 18 yn y drefn honno.

17 **Tanau Eilaidd**
Cynyddodd nifer y tanau eilaidd 40.3% o 647 i 908, a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd o 44.7% mewn tanau Eilaidd Damweiniol (405 i 586) gyda'r cyfrannwr mwyaf at y cynnydd yn danau 'Glaswelltir, coetir a chnydau' (162 i 285) ac 'Eraill yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (117 i 179). Cynyddodd y tanau Eilaidd Bwriadol 33.1% (242 i 322), gyda thanau 'Glaswelltir, coetir a chnydau' ac 'Eraill yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' yn cynyddu 47.1% (87 i 128) a 36.6% (93 i 127) yn y drefn honno.

18 **Tanau Simdde**
Gwelwyd nifer y tanau simdde, sydd wedi bod ar i lawr ers 2019/20 (93), yn gostwng ymhellach o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 (75 i 70).

19 **Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)**
Aeth y Gwasanaeth at 17.8% yn llai o TDC – 258 o gymharu â 314 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y TDC mewn 'Tai Meddiannaeth Sengl' a 'Byngalos Meddiannaeth Sengl' o 179 i 152 ac o 51 i 31 yn y drefn honno, a chafwyd y gostyngiadau mwyaf o ran achosion tân mewn 'Coginio – Coginio Arall' (68 i 60), 'Deunyddiau Llosgadwy'n Rhy Agos at Ffynhonnell Wres (neu dân)' (67 i 50), a 'Coginio – Sosban Saim/Ffriwr Saim Dwfn' (25 i 7). Serch hynny, nodwyd cynnydd mewn tanau 'Gorboethi, Achos Anhysbys' (10 i 16).

20 **Anafiadau/Marwolaethau mewn TDC**

Ni chafwyd marwolaethau o gwbl mewn TDC o gymharu â 3 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr anafusion o 96 i 61, gyda dau berson yn dioddef anafiadau difrifol a 22 yn dioddef mân anafiadau.

21 **Synwyryddion Mwg – TDC**

Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol yn y cartref yn 2022/23 (87.6%). Cafwyd gostyngiad o 155 i 129 mewn TDC lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi ei osod, wedi ei weithredu ac wedi seinio'r larwm, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

22 Bu gostyngiad o 56 i 31 mewn TDC lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod ond heb seinio'r larwm, gyda'r rheswm mwyaf tebygol dros synhwyrydd yn peidio â gweithredu oedd ei fod wedi'i osod yn gywir ar lwybr dianc (cyntedd, pen grisiau) ac nid mewn ystafell lle mae tân yn fwyaf tebygol o gychwyn (cegin, ystafell fyw).

23 Cafwyd gostyngiad yn nifer y TDC lle nad oedd unrhyw synhwyrydd wedi'i osod, o 40 i 32. Lle'r oedd synhwyrydd wedi'i osod ac nad oedd wedi gweithio, cafwyd cynnydd bychan yn y digwyddiadau o 63 i 66.

24 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Dibreswyl**

Cafwyd gostyngiad o 45 i 37 yn nifer y prif danau bwriadol mewn adeiladau di-breswyl, gydag 13 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

25 **Galwadau Diangen**

Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 2,064 o alwadau diangen – 175 (9.3%) yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (1,197), a 256 (14.2%) yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 1,808. Bu cynnydd o 13.0% (138) o 1,059 i 1,197 yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau Larwm Tân Awtomatig ac roeddent yn cynrychioli 58.0% o'r holl alwadau diangen yr aethpwyd atynt.

26 **Larymau Tân Awtomatig (LTAau) Dibreswyl**

Cynyddodd nifer y digwyddiadau oedd wedi tarddu o LTAau dibreswyl 39.4%, o 142 i 198. Roedd hynny'n bennaf oherwydd cynnydd mewn digwyddiadau 'Ysbytai a Gofal Meddygol' (92 i 142) ac 'Addysg' (26 i 32). Y prif achosion dros Larymau Tân Awtomatig Dibreswyl yn gweithredu oedd eu bod yn 'Ddiffygiol' (63 i 79); 'Wedi'u cychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (19 i 31); 'Arall' (6 i 15); 'Cemegau/aerosolau' (9 i 15) a 'Stêm' (6 i 12).

27 **LTAau Preswyl-Arall**

Cafwyd cynnydd o 9.6% mewn LTAau 'Preswyl-Arall' o 83 i 91, gyda'r digwyddiadau mewn 'Llety Nyrsys/Meddygon' a 'Gwesty/motel' yn cynyddu o 8 i 23 ac o 11 i 18 yn y drefn honno. Fodd bynnag, gostyngodd y digwyddiadau mewn 'Neuadd Breswyl Myfyrwyr' a 'Cartref Preswyl' o 27 i 12 ac o 22 i 10 yn y drefn honno. Er mai'r prif achosion dros larymau'n gweithredu yn y categori 'Preswyl-Arall' oedd 'Coginio/llosgi tost', gyda chynnydd bach o 24 i 25, fe wnaeth digwyddiadau 'Llwch' ac 'Ysmygu' godi o 6 i 9 ac o 1 i 6 yn y drefn honno. Er hynny, bu gostyngiad yn y categori 'Diffygiol' o 30 i 20.

28 **LTAau Anheddau**

Gwelwyd tuedd tuag i fyny yn parhau mewn LTAau mewn Anheddau, gan gynyddu 8.9% o 833 i 907, gyda 'Tai – Meddiannaeth Sengl' yn cyfrannu fwyaf at y cynnydd, gan godi o 214 i 269, ac yna 'Byngalos – meddiannaeth sengl' yn cynyddu o 235 i 263 a 'Fflatiau/Fflatiau Deulawr wedi'u Trosi – amlfeddiannaeth' yn cynyddu o 17 i 33. Cofnodwyd gostyngiadau yn y categorïau 'Fflatiau/Fflatiau Deulawr wedi'u Hadeiladu'n Bwrpasol – amlfeddiannaeth' o 290 i 275 a 'Tai Gwarchod Hunangynhwysol' o 68 i 60.

29 O'r 907 o LTAau Anheddau, 'Coginio/Llosgi Tost' oedd prif achos eu gweithredu, gan gynyddu o 433 i 454. Cofnodwyd cynnydd bychan hefyd yn y categorïau 'Diffygiol' (198 i 210); 'Arall' (43 i 53); 'Wedi'u Cychwyn yn Ddamweiniol/yn Ddiofal' (40 i 49); 'Stêm' (19 i 26) a 'Mewnwthiad Dŵr' (2 i 10). Er hynny, gwelwyd gostyngiad yn y categori 'Ysmygu' o 26 i 17.

30 **Galwadau Diangen Diffuant**

Cynyddodd nifer y galwadau diangen diffuant 3.6% o 800 i 829, gyda mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau 'Annedd' o 306 i 311, lle gwelwyd cynnydd mewn 'Coginio Arall' fel yr achos tân o 43 i 61.

31 Gostyngodd nifer y galwadau diangen diffuant yn y categori 'Awyr Agored Arall (gan gynnwys tir)' o 221 i 186 yn sgil gostyngiad mewn 'Llosgi Dan Reolaeth' o 195 i 170.

32 Cynyddodd galwadau diangen diffuant 'Dibreswyl' o 56 i 68 yn sgil cynnydd yn y categori 'Arall' o 19 i 24, a 'Teclyn yn Gorboethi' o 0 i 9, er bod y categori 'Mygdarthau/Tawch gwres' wedi gostwng o 10 i 3.

33 Cynyddodd nifer y galwadau diangen diffuant yn y categori 'Glaswelltir, Coetir a Chnydau' o 81 i 92, a 'Llosgi Dan Reolaeth' gyfrannodd fwyaf at y cynnydd (55 i 72), ond gwelwyd gostyngiad yn y categori 'Digwyddiad/lleoliad heb ei ganfod' o 21 i 9.

34 **Galwadau Diangen Maleisus**

Cafwyd cynnydd bychan mewn Galwadau Diangen Maleisus (30 i 38), gyda'r categori 'Annedd' y prif gyfrannwr at y cynnydd (11 i 29), lle cynyddodd 'Gweithredu Larwm/Pwynt Galw Tân' o 8 i 23. Gostyngodd nifer y galwadau diangen maleisus 'Dibreswyl' o 11 i 1.

35 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (DGA)**
Cafwyd cynnydd o 37.1% mewn DGA (700 i 960) a gellir priodoli hyn i'r newid polisi er mwyn cynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân yn y gymuned pan fo angen.

36 Cynyddodd 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' 43.7% (545 i 783). Roedd y cynnydd mwyaf yn y categori 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' gyda chynnydd o 82.2% o 152 i 277, lle cofnodwyd cynnydd mewn 'Ar Goll o Gartref' (2 i 28); 'Cael mynediad' (77 i 170); 'Sicrhau Mynediad neu Allanfa' (65 i 77); 'Rhyddhau Lifft' (54 i 67); 'Achub/Rhyddhau Personau Arall' (43 i 80); 'Gwahanu Pobl oddi wrth Wrthrychau' (53 i 64), 'Digwyddiadau Cynorthwyo Anifeiliaid' (o 0 i 36) a 'Dim Gweithredu (nid galwad diangen)' (39 i 67). Fodd bynnag, roedd gostyngiadau mewn digwyddiadau 'Llifogydd' a 'Gwneud yn Ddiogel (nid Gwrthdrawiad ar y Ffordd)' o 50 i 46 ac o 41 i 16 yn y drefn honno.

37 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd**
Mynychodd y Gwasanaeth 14.2% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (177), lle'r oedd 54 (30.5%) yn cynnwys tynnu personau'n rhydd. Lle cafodd y Gwasanaeth ei alw i wneud cerbyd neu safle'n ddiogel, cynyddodd y presenoldeb i 54.2% (76 i 96). Er i'r Gwasanaeth fynychu mwy o wrthdrawiadau ar y ffordd, roedd canran y rhain a oedd yn cynnwys rhyddhau pobl (30.5%) yn is nag: 1) yr un cyfnod yn 2020/21 (32.9%); 2) 2018/19 (40.5%); a 3) y cyfartaledd tair blynedd o 35.2%.

38 **Archwiliadau Diogel ac Iach (ADIau)**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 13,487 o ADIau yr oedd 4,682 (34.7%) ohonynt yn ADIau Blaenoriaeth Uchel gyda 2,633 (56.2%) o'r ADIau Blaenoriaeth Uchel wedi'u hatgyfeirio gan un o'i bartner-asiantaethau.

39 **Perfformiad Gorsafoedd**
Cafodd yr argaeledd arfaethedig ar gyfer 20 gorsaf ei gyflawni ar 260 o ddiwrnodau (94.5%) allan o 275 o ddiwrnodau, o gymharu â 225 (81.8%) yn yr un cyfnod o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ond mae hyn yn dal yn is na'r 273 diwrnod (99.3%) a gyflawnwyd yn yr un cyfnod yn 2018/19.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n helpu'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |